

Bwletin Awdurdod S4C

- Mai 2001

Cydymdeimlad

Mynegwyd tristwch mawr wrth i'r Aelodau ddysgu fod y Prif-fardd, Mr Dafydd Rowlands wedi marw.

Cyfarfod gyda'r BBC

Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod gyda Chyngor Darlledu Cymru nawr yn cael ei gynnal nos Iau, 26 Gorffennaf 2001, yn swyddfeydd y BBC. Trafodwyd pa faterion y dylid codi gyda'r Cyngor Darlledu yn y cyfarfod hwnnw.

Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru

Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi wedi cael cyfarfod gyda Mr Paul Murphy, AS, a Mr David Hanson, AS, ar 5 Ebrill. Bu'r cyfarfod yn un buddiol lle cafwyd y cyfle i esbonio sut yr oedd y datblygiadau ar gyfer y Ddeddf Gyfathrebu newydd yn effeithio ar S4C.

Effeithiau Clwy'r Traed a Genau

Trafodwyd ymhellach effeithiau Clwy'r Traed a Genau ar wasanaeth rhaglenni S4C. Yn benodol, adroddwyd bod trefniadau bellach wedi'u gwneud ar gyfer darlledu *Gwyl yr Urdd* yn ystod yr wythnos oedd wedi'i glustnodi yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Yn ogystal, cadarnhawyd na fyddai'r Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd yn mynd yn ei flaen eleni. Roedd swyddogion wrthi'n trafod syniadau ar gyfer beth ellid darlledu yn ei le. Roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i ba sylw y gellid ei roi i sioeau amaethyddol eraill fyddai'n digwydd yn y gwahanol siroedd yn ystod y flwyddyn.

Yr Wyl Ffilm Geltaidd

Llongyfarchwyd y Prif Weithredwr ar gael ei benodi fel Cadeirydd yr Wyl. Yn ogystal, nodwyd â phleser bod: HTV wedi ennill y wobr ar gyfer y ddrama gyfres orau am *Pen Tenny*; Boomerang bod wedi ennill y wobr ar gyfer y rhaglen orau i blant/pobl ieuanc am *Bicini*; a bod *Solomon a Gaenor* wedi ennill tlws 'Ysbryd yr Wyl'.

Adroddiad Blynyddol yr ITC

Tynnwyd sylw at adroddiad yr ITC a chyfeiriwyd yn benodol at y sylwadau ynddo parthed y Ddeddf Gyfathrebu newydd.

Syr Christopher Bland

Nodwyd y newyddion bod Syr Christopher Bland, Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr y BBC, wedi'i benodi i fod yn Gadeirydd ar BT.

Adroddiad Blynyddol 2000

Ystyriodd yr Aelodau destun drafft ar gyfer yr Adroddiad Rhaglenni a'r manylion ar berfformiad rhaglenni S4C yn 2000. Byddai gweddill y testun yn cael ei roi gerbron yr Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf. Adroddwyd ei bod hi'n fwriad i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar 27 Mehefin 2001.

Hyrwyddo digidol/diffodd analog

Trafodwyd y datblygiadau diweddaraf parthed hyrwyddo digidol a diffodd analog, yn enwedig felly, dymuniad y Llywodraeth i wella'r rhwydwaith digidol daerol a'r rôl yr oedd yn gobeithio y byddai'r darlledwyr daerol yn chwarae i gynorthwyo hynny i ddigwydd.

Coleg Digidol

Trafodwyd cynlluniau ac anghenion tymor byr y gwasanaeth hwn. Nodwyd y byddai'r Coleg Digidol yn adrodd yn ôl i S4C gyda manylion ar gyfer cynllun busnes cyflawn erbyn mis Hydref 2001.

Nawdd

Ystyriodd yr Awdurdod y ceisiadau isod am nawdd.

- (a) Cynhadledd Cyfathrebu Caerdydd – Derbyniwyd cais oddi wrth drefnwyr y gynhadledd hon i S4C gyfrannu £2,000 i noddi'r digwyddiad. Roedd y trefnwyr yn gofyn am gyfraniad tebyg oddi wrth y darlledwyr eraill yng Nghymru hefyd. Amlinellwyd rhaglen y diwrnod a tynnwyd sylw i'r ffaith bod yna siaradwyr blaenllaw iawn wedi eu denu i gymryd rhan. Nodwyd y byddai'r gynhadledd yn gyfarfod cyhoeddus. Cytunwyd y dylid cyfrannu nawdd o £2,000 tuag at Gynhadledd Cyfathrebu Caerdydd.
- (b) Opera Canolbarth Cymru - Ystyriwyd cais i S4C gynnig nawdd i gynnal 'Gwledd o Opera' yn y Drenewydd, gan gynnwys dau gynhyrchiad newydd. Yn dilyn hyn, fe fyddai'r cwmni yn mynd ag un o'r cynhyrchiadau ar daith gan ymweld â nifer o lefydd ledled Cymru. Cytunwyd y dylid cyfrannu nawdd o £5,000 i Opera Canolbarth Cymru.
- (c) Derbyniad yn Noson Cinio Confensiwn RTS Caergrawnt - Adroddwyd bod S4C yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi noddi derbyniad yn y Confensiwn hwn. Roedd yn ddigwyddiad oedd wedi bod yn llwyddiannus ac wedi denu proffil uchel i S4C. Gwnaethpwyd cais bod S4C yn noddi digwyddiad tebyg yng Nghonfensiwn eleni hefyd. Cytunwyd y dylid rhoi nawdd o £4,000 ar gyfer yr achlysur hwn.

Cydymffurfiaeth

(a) Y bennod o *Clipsen* a ddarlledwyd am 8.00 pm ar 23 Tachwedd 2000

(i) Tynnodd y Grwp Cydymffurfiaeth sylw yr Awdurdod at y bennod o'r gyfres *Clipsen* a ddarlledwyd am 8.00 p.m. ar 23 Tachwedd 2000 gan ofyn i'r Awdurdod ystyried os oedd eitem yn y rhaglen dan sylw yn addas i'w ddarlledu yr adeg hon o'r noson. Roedd yr eitem hon yn gwneud sbri am raglenni S4C trwy gyfeirio at, a dangos cloriau, fideos pornograffig (ffug). Gwyliodd yr Awdurdod yr eitem dan sylw a thrafodwyd sylwadau'r Grwp Cydymffurfiaeth ynghyd â sylwadau'r cwmni cynhyrchu ar y mater.

(ii) **Cytunwyd:** Er natur ysgafn yr eitem, a chan sylweddoli mai jôc ydoedd, nid oedd y cynnwys yn dderbyniol i'w ddarlledu yn ystod oriau gwyllo teulu ac yr oedd Zeitgeist, y cwmni cynhyrchu, wedi tramgwyddo canllawiau cydymffurfiaeth S4C.

(b) **Lleiafrifoedd Ethnig** - Tynnwyd sylw at y monitro oedd ar waith parthed casglu gwybodaeth ar gynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ar y sgrîn. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod S4C, wedi derbyn copi o'r Ddeddf (Diwygio) Perthnasau Hiliol 2000 wedi i'r Uned Fonitro ddechrau ar y gwaith yma. Roedd gan y Ddeddf oblygiadau i wasanaethau cyhoeddus i S4C. Roedd hwn yn fater y byddai swyddogion S4C yn talu sylw iddo yn ystod y misoedd nesaf.

Adolygiad o Gynllun Corfforaethol 2001-2003

Ystyriodd yr Aelodau y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau yn y cynllun corfforaethol yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn hon. Nodwyd bod nifer helaeth o dargedau yn cael eu cwrdd hyd yma.

Materion Eraill

Yn ogystal, ystyriwyd neu trafodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2001.
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.